

# Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

## 2. Rheoli eich sefydliad

### 2.18 Polisi Gwerth Cymdeithasol



#### **Beth ydy gwerth cymdeithasol?**

Dechreuwch drwy ofyn y cwestiwn yma, sut fyddai'r bobl yr ydych yn gweithio'n agos efo nhw'n egluro'r canlyniadau pwysicaf iddynt yn sgil eich gweithgareddau? A fyddent yn edrych ar eich perfformiad ariannol? Neu a ydy'n fwy tebygol y byddent yn cyfeirio at bethau fel eu bod yn fwy hyderus, neu mewn iechyd gwell, mewn tai mwy addas, wedi rhoi'r gorau i ymddygiad niweidiol, neu wedi lleihau eu hanghenion o ran gofal iechyd a chymdeithasol?

Os ydy newidiadau o'r mathau hyn i fywydau pobl o ganlyniad i'ch gwaith chi, rydych yn creu gwerth cymdeithasol! Ond allwch chi egluro pa mor bwysig ydy'r newidiadau yma i bobl?

Drwy ofyn i bobl beth sydd wedi newid yn eu bywydau, gallwn ddechrau deall canlyniadau ein gweithgareddau – a dim ond drwy fesur y rhain y gallwn wir deall faint o effaith a gawn ar fywydau bobl.

Er enghraifft, os ydych yn darparu gwasanaethau i helpu pobl i ganfod ffyrdd iachach o fyw, ai dim ond diddordeb yn nifer y bobl yr ydych wedi gweithio hefo nhw sydd gennych, neu a oes gennych ddiddordeb yn y nifer sy'n iachach o ganlyniad i'ch gwaith? Mae'r ddau yn bwysig wrth gwrs, ond ddim ond drwy ddeall canlyniadau eich gwaith y gallwch fod yn hyderus fod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn gweithio. Nid yn unig hynny, drwy ddeall sut y mae pobl wedi newid o ganlyniad i'ch gwaith, gallwn hefyd roi gwerth i'r effeithiau pwysig ar fudiadau megis y GIG neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

#### **Egwyddorion Gwerth Cymdeithasol**

**Cynnwys rhanddeiliaid** Deall y modd y mae'r mudiad yn creu newid drwy ddeialog gyda rhanddeiliaid

**Deall beth sy'n newid** Cydnabod a mynegi holl werthoedd, amcanion a rhanddeiliaid y sefydliad cyn cytuno ar ba agweddau ar y sefydliad sydd i'w cynnwys; a phenderfynu beth mae'n rhaid ei gynnwys yn yr adroddiad er mwyn i rhanddeiliaid allu gwneud penderfyniadau rhesymol.

**Gwerthfawrogi'r pethau sy'n cyfri** Defnyddio amcangyfrifon ariannol o werth er mwyn cynnwys gwerthoedd y rheiny nad ydynt wedi'u cynnwys mewn marchnadoedd yn yr un termau â'r rheiny a ddefnyddir mewn marchnadoedd.

**Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol** Mynegwch yn glir sut y mae gweithgareddau'n creu newid a gwerthuswch hyn drwy'r dystiolaeth a gasglwyd

**Peidiwch â hawlio gormod** Cymharwch berfformiad ac effaith gan ddefnyddio meincnodau, targedau a safonau allanol priodol

**Byddwch yn dryloyw** Dangoswch ar ba sail y gellir ystyried bod y canfyddiadau'n gywir ac yn onest; a dangoswch y byddant yn cael eu hadrodd i randdeiliaid a'u trafod gyda nhw

**Gwiriwch y canlyniad** Sicrhewch fod y cyfrif yn cael ei wirio yn annibynnol

## **Y 10 Cwestiwn y mae angen i ni eu hateb o ran effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud**

1. Beth ydy'r broblem yr ydym yn ceisio ei datrys?
2. Beth yw'r ateb i'r broblem?
3. Pwy sydd yn newid o ganlyniad i weithgareddau?
4. Sut maen nhw'n newid?
5. Sut ydym yn mesur y newidiadau?
6. Faint o bob newid a ddigwyddodd?
7. Faint sy'n cael ei achosi gennym ni?
8. Pa mor hir fydd o'n para?
9. Beth ydy pwysigrwydd cymharol y gwahanol newidiadau?
10. Pa newidiadau sy'n (ddigon) pwysig?

## **Pam cael polisi gwerth cymdeithasol?**

Mae cael polisi gwerth cymdeithasol nid yn unig yn dangos i randdeiliaid allanol eich bod chi fel mudiad yn ystyried effaith eich gwasanaeth o ddifrif, ond mae hefyd yn helpu i sicrhau, yn fewnol, bod sylw yn cael ei roi i greu newidiadau hyd yn oed mwy cadarnhaol ym mywydau pobl.

Bydd hefyd yn dangos bod eich mudiad yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015).

Mae'r asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei baratoi mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn cefnogi'r Asesiad Llesiant fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf ydy:


**Llais a Rheolaeth** – rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais iddynt a rheolaeth dros gyflawni'r canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant;

**Atal ac ymyrraeth gynnar** – cynyddu'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r posibilrwydd y bydd anghenion difrifol yn dwysáu;

**Llesiant** – rhoi cymorth i bobl gyflawni eu llesiant eu hunain ac i fesur llwyddiant gofal a chymorth;

**Cyd-gynhyrchu** – annog unigolion i chwarae mwy o ran mewn dylunio a darparu gwasanaethau;

**Amlasiantaethol** – pob asiantaeth a sefydliad yn cydweithio mewn partneriaethau cryf.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn helpu'r cyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf i feddwl am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant.

## Beth ddylai polisi gwerth cymdeithasol ei gynnwys?

Nid oes unrhyw gynnwys safonol ar gyfer polisi Gwerth Cymdeithasol, er, fel rheol, dylai'r polisi gyflawni'r gofynion a ganlyn:

- Cyflwyno'r mudiad.
- Darparu ymrwymiad i fesur a rheoli eich gwerth cymdeithasol.
- Darparu ymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion gwerth cymdeithasol.
  1. Cynnwys rhanddeiliaid
  2. Deall beth sy'n newid
  3. Gwerthfawrogi'r pethau sy'n cyfri
  4. Cynnwys dim ond yr hyn sy'n berthnasol
  5. Peidiwch â hawlio gormod
  6. Byddwch yn dryloyw
  7. Gwiriwch y canlyniad
- Darparu ymrwymiad i gyflawni cymaint o werth cymdeithasol â phosib
- Dangos ystyriaeth o sut y gallwch ateb y 10 cwestiwn o ran effaith yr hyn yr ydym yn ei wneud.

- Darparu eglurhad o ran sut y byddwch yn ymgysylltu â'ch rhanddeiliaid a pha mor aml. Cynnwys cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid os yn bosib.
- Pennu sut y byddwch yn cyfathrebu eich gwerth cymdeithasol yn fewnol ac yn allanol.

## Gwybodaeth bellach

### Social Value Cymru

[www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html](http://www.mantellgwynedd.com/social-value-cymru.html)


### Social Value UK

[www.socialvalueuk.org/](http://www.socialvalueuk.org/)

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p><b>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru</b> <i>Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH</i> <b>Elusen Gofrestredig: 218093</b></p> <p><b>Ffôn:</b> 0300 111 0124      <b>help@wcva.cymru</b> <b>Ffacs:</b> 029 2043 1701      <b>www.wcva.cymru</b></p>	 <p><b>WcVA</b> <b>CgGC</b></p>
<p>Cynhyrwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli <b>Wedi ei ddiweddarau:</b> 04/05/2018</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 <a href="http://www.wcva.cymru">www.wcva.cymru</a></p>